COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 19 MAI 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd KJ Watts – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| CA Green | DG Howells | A Hussain | RM James |
| B Jones | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| MC Voisey | LM Walters | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Hughes

Swyddogion:

-

525. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

526. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y MAER, Y CYNGHORYDD KEN WATTS

Roedd cyhoeddiad y Maer fel a ganlyn:

"Mae hon wedi bod yn flwyddyn heb ei thebyg! Mae wedi profi ein penderfyniad a'n hymrwymiad ac mae’n briodol ein bod yn cydnabod gwaith y GIG a staff cartrefi gofal yn benodol.

Ond hoffwn ddiolch hefyd i swyddogion a staff CBSP sydd wedi parhau beth bynnag a chadw gwasanaethau i fynd yn ystod yr hyn a fu'n amser unigryw a heriol. Ar ran y Cyngor hwn a phobl Pen-y-bont ar Ogwr, diolch i chi i gyd.

Bu’r flwyddyn hefyd yn anodd iawn i rai’n bersonol, ac rydym yn anrhydeddu, yn cofio ac yn galaru'r anwyliaid a gollwyd. Mae hefyd wedi bod yn drychinebus i lawer gyda bywoliaethau wedi'u colli a ffordd o fyw wedi newid, am byth o bosibl. Ac yn awr mae'n ddigon posibl y bydd yn ddadleuol yn gymdeithasol gyda’r tebygolrwydd o Basbortau Covid yn cael eu cyflwyno. Heb os, mae'r ffordd rydym yn byw, gweithio a chwarae wedi newid. Mae'r byd wedi newid.

Mae fy mlwyddyn fel Maer, neu a ddylwn ddweud 8 mis, wedi bod ychydig yn wahanol hefyd. Nid wyf wedi eistedd ym Mharlwr y Maer, (ac eithrio llun yr wythnos hon) nac yn Siambr y Cyngor. Cafodd fy seremoni sefydlu, hyd yn oed, ei chynnal gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn yr ardd gefn ac yn y glaw!  Mae pob cyfarfod a swyddogaeth wedi'u cynnal yn rhithwir – profiad ynddo'i hun fel y mae llawer ohonom yn gwybod!

Yn amlwg, mae'r ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu yn y dyfodol yn ansicr ar hyn o bryd ond mae gen i bob ffydd y bydd gan aelodau a swyddogion les trigolion Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn bennaf yn eu meddyliau wrth i newidiadau ddigwydd.

Dychwelwyd at rywfaint o normalrwydd yr wythnos ddiwethaf a chefais fynd i'r cyfrif gyda'r Cynghorydd Julia Williams a hefyd agoriad Llyfrgell Porthcawl a busnes newydd ym Mharc Busnes Dunraven. Dyma ffracsiwn o'r hyn y byddai Maer yn ei wneud fel arfer mewn blwyddyn brysur.

Hoffwn ddiolch i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am eu cefnogaeth a'u harweiniad drwy gydol fy nhymor ac, wrth gwrs, ni fyddwn yn anghofio'r effaith y mae marwolaeth Kevin wedi'i chael arnom i gyd.

Hoffwn ddiolch yn arbennig hefyd i'm Consort, y Cynghorydd Julia Williams, sydd, er gwaethaf y prinder digwyddiadau, wedi fy nghefnogi drwyddi draw mewn cyfnod anodd iddi hi'n bersonol. Rwy'n gwybod eich bod i gyd yn dymuno'n dda iddi.

Dymunaf bob llwyddiant i'm holynydd, y Cynghorydd Spanswick a'i Gonsort, Susan, yn eu cyfnod yn y swydd ac rwy'n hyderus y byddant yn gwneud gwaith o'r radd flaenaf wrth i fywyd ddychwelyd i beth bynnag fydd y dyfodol i bob un ohonom.

Diolch."

527. ETHOL MAER AR GYFER Y CYFNOD HYD AT FIS MAI 2022 YN UNOL AG ADRAN 23(1) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd J Spanswick yn Faer am y flwyddyn ddilynol, hyd at fis Mai 2022.

528. CYHOEDDI CONSORT Y MAER

Cyhoeddodd y Cynghorydd J Spanswick mai ei gonsort fydd ei wraig, Susan Spanswick.

529. ETHOL DIRPRWY FAER AR GYFER Y CYFNOD HYD AT FIS MAI 2022 YN UNOL AG ADRAN 24(1) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd M Jones yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn ddilynol, hyd at fis Mai 2022.

530. CYHOEDDI CONSORT Y DIRPRWY FAER

Cyhoeddodd y Cynghorydd M Jones na fyddai ganddo gonsort ar gyfer y flwyddyn i ddod, ond y byddai'n gwahodd Aelodau, yn eu tro, i fynd gydag ef i ddigwyddiadau ac ymrwymiadau Maerol.

531. ETHOL ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorydd HJ David yn cael ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y flwyddyn ddilynol, hyd at fis Mai 2022.

532. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Roedd adroddiad yr Arweinwyr fel a ganlyn:

"Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i chi am fy ailethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'n fraint ac yn anrhydedd enfawr, a hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm haelodau.

Byddaf, wrth gwrs, yn parhau i roi fy sylw llawn a'm ffocws i'r rôl, ac yn gwneud fy ngorau glas i'r bobl yr ydym oll yn eu gwasanaethu.

Diolch am eich gwasanaeth, y Cynghorydd Watts. Roeddwn i'n disgwyl i chi wasanaethu'r gymuned gyda rhagoriaeth ac fe wnaethoch hynny. Fe wnaethoch gadeirio cyfarfodydd y cyngor yn fedrus iawn yn rhithwir, yn ddi-os y cyfarfod anoddaf i'w gadeirio. Rydych chi a Julia'n gwneud tîm gwych.

Llongyfarchiadau hefyd i'r cynghorwyr Giffard a Hussein am eu llwyddiant wrth ddod yn aelodau rhanbarthol o'r Senedd. Rwy'n siŵr y byddant yn hyrwyddo llywodraeth leol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn eu rolau newydd.

Hoffwn gofnodi fy mod yn parchu'r cynghorwyr Cheryl Green a Norah Clarke yn ddwfn. Mae'r Cynghorydd Green yn ymddiswyddo fel cadeirydd y Pwyllgor Craffu, a'r Cynghorydd Clarke fel arweinydd yr wrthblaid.

Mae'r ddau wedi dal rolau arwain yn ystod eu cyfnod fel cynrychiolwyr etholedig, ac maen nhw bob amser wedi bod yn ddim llai nag adeiladol a pharchus tuag at eu cyd-aelodau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

Maen nhw bob amser wedi rhoi buddiannau trigolion lleol wrth wraidd yr hyn a wnânt, ac rwyf am ddiolch yn gyhoeddus iddynt am eu cyfraniadau a'u gwasanaeth.

Fel arfer, byddai hyn yn gyfle i mi siarad am uchafbwyntiau'r cyngor dros y deuddeg mis diwethaf, ac edrych tuag at yr hyn y byddwn yn ceisio'i gyflawni yn y flwyddyn i ddod.

Fodd bynnag, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bopeth heblaw normal.

Mae bellach yn bedwar mis ar ddeg ers i bandemig y coronafeirws gychwyn, a'n gorfodi ni i gyd i osgoi cyswllt a gweithio gartref.

O'i gymharu â'r ffordd yr oedd pethau bryd hynny, mae'r rhagolygon bellach yn llawer gwell, gyda chyfraddau heintio'n gostwng, nifer y brechiadau'n cynyddu a'r cyfyngiadau yn dal i leddfu. Serch hynny, nid yw Covid-19 wedi diflannu, a byddai'n beth ffôl ymddwyn fel petai wedi mynd.

O'r herwydd, mae'r cyngor gan Lywodraeth Cymru i weithio gartref lle bynnag y bo modd yn dal i fod ar waith, ac mae'n debygol o fod felly am beth amser eto.
Meddyliais am hyn yn ddiweddar wrth ystyried beth i siarad amdano yma heddiw, ac fe'm hatgoffwyd o ddau beth.

Y cyntaf yw pa mor heriol y bu'r flwyddyn ddiwethaf, ond sut, pan oedd cymaint yn y fantol, y daeth pobl at ei gilydd a rhoi ymateb unedig.

Yn ôl ar ddechrau'r pandemig, ffurfiodd y cyngor grŵp llywio cynllunio a chydgysylltu coronafeirws, cam a oedd yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallem ymateb i'r heriau a ddeuai yn sgil y pandemig yn gyflym ac yn effeithiol.

Cyn pen dim, fe rowliodd y diwrnodau gwaith hirion a'r nosweithiau byrion i'w gilydd, a'n profi'n ddifrifol fel unigolion ac fel sefydliad.

Fe wnaethom ddyfalbarhau a chwrdd â'r heriau hyn drwy ymuno â grwpiau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i weithredu fel un wrth geisio amddiffyn ein cymunedau.

Yn ystod yr argyfwng, ffurfiwyd partneriaethau, ac mewn llawer o achosion eu hatgyfodi.

Daeth sefydliadau sy'n amrywio o gynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Heddlu De Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac adnoddau i gael yr effaith fwyaf posibl.

Mae'r dull hwn o gydweithredu yn parhau, ac rwy'n amau ei fod wedi gosod y sylfeini ar gyfer cydweithredu agos pellach, hyd yn oed ar ôl i'r pandemig ddod i ben.

Yr ail beth y cefais fy atgoffa ohono wrth ystyried yr hyn y byddwn yn ei ddweud yma heddiw oedd yr ymateb rhyfeddol gan weithlu'r cyngor yn wyneb Covid-19.

Fe wnaeth ein staff addasu, arloesi a dyfalbarhau o dan yr amgylchiadau anoddaf, gan weithio oriau hir heb unrhyw wobr ychwanegol ac, mewn rhai achosion, amlygu eu hunain i'r coronafeirws wrth iddynt fynd ati i sicrhau bod yr awdurdod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Efallai y cofiwch sut yr ymgynghorwyd yn gyflym ag undebau llafur a sefydlu sut y gellid adleoli ac ail-flaenoriaethu staff, adnoddau a gwasanaethau er mwyn delio â'r argyfwng.

Un o'r pryderon mwyaf yn ystod y cam cychwynnol, wrth gwrs, oedd argaeledd hylif diheintio a chyfarpar diogelu personol addas i helpu i gadw ein gweithwyr yn ddiogel ac yn ddigon iach i allu parhau i gefnogi pobl.
Fe wnaeth y staff wyrthiau o ran sicrhau stociau digonol, ac fe wnaeth hyd yn oed athrawon o ysgolion lleol ymuno â'r gwaith o greu feisorau amddiffynnol, a mwy, gan ddefnyddio peiriannau argraffu 3D ac offer gweithdy arall.

Dydw i ddim yn gwybod a allwch chi gofio ble'r oeddech chi pan gyhoeddwyd, o'r diwedd, y cyfyngiadau symud gan arwain at ein strydoedd a chanol trefi i fod yn wag yn sydyn, ond roeddwn i yn y Swyddfeydd Dinesig yn Stryd yr Angel.

Cofiaf feddwl pa mor anarferol ydoedd i gerdded ar hyd swyddfeydd cynllun agored yr adeilad ac i beidio â gweld na chlywed aelod arall o staff.
Diolch byth, fe gyflawnodd tîm TGCh y cyngor wyrth fach yn y cyfnod yn arwain at y cyfyngiadau symud, ac o fewn ychydig wythnosau, roeddent wedi sicrhau bod gweithlu cyfan y cyngor yn gallu gweithio gartref.

Gwnaed ymdrech enfawr i annog preswylwyr i gyflawni eu busnes cyngor ar-lein neu dros y ffôn, a bu'n rhaid paratoi ystod eang o gyngor a chymorth i unigolion, busnesau a sefydliadau o bob math ac o bob maint ar frys.

Gyda'r cyhoeddiad bod y wlad yn mynd i gyfnod clo yn swyddogol, ac y bydd pobl yn gorfod aros gartref, caewyd ysgolion a chyfleusterau fel Amlosgfa Llangrallo yn gyflym, a chyflwynwyd rheolau llym newydd mewn cartrefi gofal i ddiogelu trigolion oedrannus rhag amlygiad.
Fe sicrhaodd ein staff gofal cymdeithasol nad oedd yn rhaid i unrhyw berson agored i niwed wynebu'r pandemig ar ei ben ei hun, ac fe aethant i drafferthion ychwanegol i sicrhau eu bod yn ddiogel.

Sefydlodd ein staff mewn ysgolion sesiynau dysgu ar-lein, a dosbarthu offer TG ac, mewn rhai achosion, gysylltiadau band eang, hyd yn oed, i sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yn colli allan ar wersi.

Ochr yn ochr â'r ystod eang o sefydliadau ac asiantaethau a ddaeth at ei gilydd i weithio mewn partneriaeth ac i amddiffyn ein cymunedau lleol, sefydlwyd llawer iawn yn ystod wythnosau a misoedd cynnar y pandemig.

Roedd hyn yn cynnwys sefydlu chwe chanolfan gofal plant brys, yn llythrennol dros nos, er mwyn sicrhau y gallai gweithwyr allweddol hanfodol barhau i ddod i'r gwaith a chadw'r system i redeg yn esmwyth.

Fe wnaethom ddatblygu system dosbarthu parseli bwyd a sicrhaodd nad oedd mwy na 5,000 o blant a oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn mynd yn llwglyd, ac a'n galluogodd hefyd i ofalu am eu lles drwy gynnal gwiriadau diogelu a chyswllt uniongyrchol.

Cafodd depos y Cyngor eu trosi'n gyflym yn orsafoedd ambiwlans dros dro, ail-agorwyd Maenordy Abergarw fel cyfleuster cam-i-lawr dros dro i bobl sy'n gadael yr ysbyty, a sefydlwyd grŵp rhannu gwybodaeth gyda'r holl ddarparwyr gofal a gomisiynwyd.

Fe wnaethom sicrhau bod pob cartref gofal, yn breifat neu fel arall, yn cael y canllawiau diweddaraf i helpu i ddiogelu staff a phreswylwyr, ac fe wnaethom amrywiaeth o waith i gael pobl ddigartref oddi ar y strydoedd.

Fe wnaethom gefnogi'r gwaith o sefydlu canolfannau profi coronafeirws, gan ddod o hyd i leoliadau addas a sicrhau y gallent symud o amgylch y fwrdeistref sirol a thargedu cymunedau lle gallant fod o'r cymorth fwyaf.

Fe wnaethom weithio ochr yn ochr â BAVO a grwpiau cymunedol gwych i gefnogi miloedd o bobl agored i niwed a oedd yn cysgodi, a sefydlu system ymarferol, a reolir yn lleol, er mwyn profi, olrhain, ac amddiffyn, a hynny mewn pythefnos yn unig.

Er mwyn cefnogi busnesau lleol, gweithiodd ein staff yn ddiflino ac aberthu eu penwythnosau i brosesu miloedd o geisiadau am gyllid a arweiniodd at ddarparu miliynau o bunnoedd o gymorth ariannol.

Fe wnaethom hefyd roi cyngor ac arweiniad ymarferol i fusnesau ynghyd â deunyddiau fel gwarchodwyr tisian, lifrai palmant, posteri, arwyddion a mwy, a gynlluniwyd i gadw staff a chwsmeriaid yn ddiogel rhag cael amlygiad.

Yn ogystal, fe wnaethom rewi rhenti ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint, gan gynnwys y stondinau ym marchnadoedd Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg, a chychwyn cyfnodau o barcio ceir am ddim mewn ardaloedd fel Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl.

O ddechrau'r argyfwng, cafodd negeseuon allweddol a chyngor swyddogol eu monitro, eu rhannu a'u cynnwys yn ein cyfathrebiadau ein hunain, ac fe wnaethom waith mewnol digynsail a oedd yn ceisio gofalu am iechyd a lles staff y cyngor, a sicrhau eu bod yn parhau'n heini ac yn iach i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roeddem wedi cyflwyno mwy na mil o ddatganiadau i'r wasg, a datblygu diweddariad dyddiol cynhwysfawr a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cynulleidfaoedd allweddol drwy gydol yr argyfwng.

Bu'n rhaid i ni hefyd gynllunio ar gyfer senarios lle gallai gwastraff ac ailgylchu fynd heb eu casglu a'u pentyrru pe bai gweithwyr Kier yn dod i gysylltiad torfol – rhywbeth na ddigwyddodd diolch byth, a bu Kier yn arbennig o weithgar o ran osgoi hyn.

Wrth gwrs, mae'n hawdd anghofio'r ansicrwydd yr oeddem yn delio ag ef bryd hynny. Ar y dechrau, nid oedd neb yn gwybod â sicrwydd am yr effaith bosibl y gallai'r pandemig ei chael, ac yr oedd llawer o bethau y bu'n rhaid inni gynllunio ar eu rhan, ond nad oedd yn rhaid eu gweithredu, diolch byth.

Ni fyddwn byth yn anghofio cadeirio cyfarfodydd lle'r oeddem yn cynllunio ar gyfer storio cyrff mewn storfa oer a hyd yn oed y posibilrwydd o gynnal claddedigaethau torfol wrth inni brofi'r ymchwydd cychwynnol mewn achosion a phan oedd ysbytai'n llawn cleifion. Serch hynny, roedd hwn yn bosibilrwydd y bu'n rhaid inni fod yn barod amdano, a rhoddodd y cyngor a'i bartneriaid y cynlluniau ar waith, gan obeithio drwy'r amser y byddent yn ddiangen yn y pen draw.

Er na fu'n rhaid gweithredu'r rhain, diolch byth, cafwyd nifer o farwolaethau o ganlyniad i'r feirws.
Rydym i gyd yn adnabod rhywun a fu farw o ganlyniad i gontractio Covid-19, ac unwaith y dechreuodd y rhaglen cyflwyno brechlyn coronafeirws o ddifrif, ymgymerodd y cyngor unwaith eto â rôl hollbwysig a gweithiodd ochr yn ochr â'n partneriaid ym maes iechyd i sefydlu canolfannau brechu lleol.

Ar ôl ymweld â'r un yn Ravens Court ar gyfer fy mhigiad fy hun, gallaf ddweud yn onest ei fod yn broses dynn, effeithlon a hynod galonogol. Bellach, gyda chadarnhad yn ddiweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru bod mwy na dwy filiwn o frechiadau wedi'u rhoi ledled Cymru, mawr obeithiaf fod y gwaethaf o'r pandemig y tu ôl inni.

Yn anffodus, fe ddaeth y pandemig yn sgil pethau fel Brexit a sawl digwyddiad arall sy'n dal i fod â goblygiadau enfawr i'r fwrdeistref sirol.

Ar ôl colli Ffatri Injan Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, daeth y penderfyniad gan Ineos i adleoli eu busnes gweithgynhyrchu ceir i Ewrop, a'r cyhoeddiad gan y Ciner Group eu bod yn sefydlu eu gwaith poteli yng Nglyn Ebwy.

Dro ar ôl tro, rwyf wedi ailadrodd fy ngalwad i Lywodraeth y DU weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i wneud ymdrechion o'r newydd i ddenu buddsoddiad newydd i'r ardal.

Nid wyf yn bwriadu gadael i hyn gael ei anghofio - mae buddsoddiad brys a gweithredu cyflym yn dal i fod yn hanfodol i ddiogelu cymunedau ac economi leol y fwrdeistref sirol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i'n cefnogi, felly galwaf eto ar Lywodraeth y DU i ymuno â hwy, ac i beidio ag anghofio am Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae arnom angen i'r ddau weithio gyda ni i ddod â buddsoddiad, busnesau a swyddi, ac i gefnogi cyflogwyr presennol, ac i sicrhau bod cyfleoedd ar gael o hyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Er mor siomedig yw'r penderfyniadau hynny, fodd bynnag, nid ydynt wedi newid ein huchelgais na'n hawydd i sicrhau newid cadarnhaol i bobl y fwrdeistref hon.

Wrth i gyfyngiadau barhau i lacio, mae ein meddyliau wedi troi fwyfwy tuag at adferiad, a beth allai'r dyfodol ei gynnal.

Er gwaethaf yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig a’r orfodaeth i ail-flaenoriaethu ein cynlluniau a’n gwasanaethau o’i herwydd, roeddem yn dal i allu parhau i gyflawni ystod eang o brosiectau a gwneud buddsoddiad newydd i gymunedau ledled y fwrdeistref.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae cynnydd cyflym yn cael ei wneud ar bentref llesiant Sunnyside, sy’n werth £23 miliwn, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Linc Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Bydd hwn yn ddatblygiad nodedig a fydd yn darparu bron i 60 o dai fforddiadwy, canolfan gofal iechyd newydd fodern gydag ystafelloedd ymgynghori a thrin, meddygfa, uned ddeintyddol arbenigol, fferyllfa a llawer mwy.

Ym Maesteg, mae’r gwaith o adfer ac ymestyn Neuadd y Dref - prosiect gwerth £7.9 miliwn - yn parhau, a phan fydd wedi’i gwblhau bydd yn darparu cyfleusterau newydd gan gynnwys atriwm gwydr newydd, theatr stiwdio a gofod ar gyfer sinema, caffi a bar *mezzanine*, canolfan dreftadaeth, llyfrgell fodern a mwy.

Ym Mhorthcawl, mae contractwyr ar fin dechrau gweithio ar gynllun amddiffyn rhag llifogydd newydd - sy’n werth £6.4m - a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd y Morglawdd Gorllewinol, y Promenâd Dwyreiniol a Thraeth Coney / Sandy Bay, ac mae ein cynllun adfywio parhaus yn gwneud cynnydd mawr yn Salt Lake.

At hynny, mae cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol newydd yn Cosy Corner ym Mhorthcawl wedi symud gam yn nes ar ôl i ni gytuno i gyfateb y cyllid gwerth £1m gan Lywodraeth Cymru gyda buddsoddiad ychwanegol o bron i £385,000.

Mae'r cyngor hefyd yn dal i fod yn un o'r awdurdodau blaenllaw yng Nghymru o ran meysydd fel ailgylchu gwastraff a'i ddargyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi.

Yn y Pîl, rydym yn paratoi i ddechrau gweithio ar wella’r gyffordd ag Ystâd Ddiwydiannol Village Farm ar drothwy agor y ganolfan ailgylchu gymunedol newydd yn ddiweddarach yr haf hwn.

Bydd y ganolfan ailgylchu newydd yn fwy ac yn gallu delio â mwy o gerbydau, a bydd gwelliannau i’r gyffordd yn ei gwneud yn llawer haws mynd i mewn i’r ystâd a’i gadael. Rydym hefyd yn cwblhau’r gwaith o adeiladu’r ganolfan fenter newydd ar gyfer busnesau bach a microfusnesau.

Mewn mannau eraill, mae ein gwaith gyda chynghorau tref a chymuned yn helpu i ddatblygu cyfleusterau a fyddai fel arall dan fygythiad oherwydd pwysau cyllidebol.

Rydym wedi bod yn cefnogi amryw o geisiadau am gyllid i wneud pethau fel gwelliannau i ganolfannau cymunedol, mannau chwarae newydd, gwella caeau chwarae, gosod wyneb newydd ar lwybrau troed a mwy.

Yn yr un modd, mae ein proses trosglwyddo asedau cymunedol yn dal i sicrhau canlyniadau, ac ar hyn o bryd mae gennym tua 55 o geisiadau ar wahanol lefelau o gwblhau.

Mae ein rhaglen barhaus i foderneiddio ysgolion wedi datgelu cynlluniau ar gyfer darparu'r buddsoddiad mwyaf i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn y Corneli ers dros 40 mlynedd, cynlluniau ar gyfer ysgol gynradd newydd o'r radd flaenaf ym Mynydd Cynffig, ac rydym yn datblygu pedair canolfan gofal plant newydd yn ardaloedd Melin Ifan Ddu, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl fel rhan o fuddsoddiad gwerth £2.6m i addysg cyfrwng Cymraeg.

Ynghyd â'n partneriaid yn y bwrdd iechyd, rydym yn buddsoddi yn Nhrem y Môr yn ardal Betws i gefnogi gwaith tîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig y fwrdeistref sirol.

Bydd hyn yn darparu cyfleusterau newydd i gefnogi hyfforddiant staff newydd sy'n gweithio mewn meysydd fel ail-alluogi, ffisiotherapi, nyrsio, gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol, a bydd yn darparu digon o le profi ac arddangos ar gyfer offer teleofal a gynlluniwyd i helpu pobl ag anableddau synhwyraidd a chorfforol.

Mae ein rhaglen i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd hefyd yn llwyddiant cynyddol, gydag wyth eiddo eisoes wedi'u cymeradwyo ac ar wahanol gamau gwaith a chyda 23 o geisiadau eraill eisoes yn mynd drwy'r system.

Rydym wedi sefydlu canolfannau sbwriel arbenigol ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â sbwriel, ac rydym wedi lansio tîm gorfodi newydd i helpu i frwydro yn erbyn tipio anghyfreithlon a materion gwastraff eraill ar draws y fwrdeistref sirol.

Manteisiodd ein rhaglen gwerth miliynau o bunnoedd o fuddsoddi mewn priffyrdd ar ffyrdd tawelach yn ystod y pandemig i wneud cynnydd ychwanegol, ac rydym eisoes yn dechrau ar y cylch nesaf o welliannau.

Un mater a ddatblygodd go iawn yn ystod y cyfnod clo oedd y ffordd y dechreuodd pobl gerdded a beicio fel rhan o'u hymarfer corff dyddiol, felly rydym yn manteisio ar hyn drwy fuddsoddi miliynau i ddatblygu llwybrau teithio llesol newydd.

Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer darparu mwy o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan fel rhan o strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac rydym yn hyrwyddo cynllun 'rhoi cynnig arni cyn prynu' i annog mwy o yrwyr tacsi i drosglwyddo i gerbydau trydan sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Mae gwaith ar bwynt gwefru tacsis ym Maes Parcio Hillsboro Place ym Mhorthcawl eisoes yn cael ei gynllunio, ac mae cyllid yn cael ei geisio hefyd ar gyfer mannau gwefru yn Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn, Canolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, Maesteg, canol tref Pen-y-bont ar Ogwr, Depo Bryncethin a maes parcio'r Swyddfeydd Dinesig.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd o ran ein hymrwymiad tuag at strategaeth datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030, Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chynllun Gwres Caerau ynghyd â buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni i'n hadeiladau.

Fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi datgarboneiddio a lleihau allyriadau carbon deuocsid, mae gennym gynlluniau ar waith i blannu bron i 3,000 o goed newydd mewn ardaloedd fel Caeau Trecelyn, Fferm Sgêr, yr ardd gymunedol newydd yn Nant-y-moel, datblygiad Pentref Lles Sunnyside a mwy.

Rydym yn dechrau ar gamau olaf y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill a fydd, o'i gymeradwyo o'r diwedd, yn pennu pa ddatblygiadau fydd yn digwydd yn y fwrdeistref sirol dros y 15 mlynedd nesaf.

Fel rhan o hyn, gallai safle adfeiliedig Ystâd Ddiwydiannol Heol Ewenni ym Maesteg gael trawsnewidiad gwerth £3.5 miliwn yn fuan diolch i gefnogaeth grant Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Bydd hyn, yn ei dro, yn datgloi'r safle ar gyfer datblygu ac adfywio pellach, a dyma un o nifer o gynlluniau o'r fath sydd gennym ar waith.

Rydym am i'r Cynllun Datblygu Lleol adlewyrchu ein huchelgeisiau ar gyfer y fwrdeistref sirol, a chefnogi datblygiad 7,500 o swyddi newydd yn ogystal â 9,200 o gartrefi sydd eu hangen i letya'r boblogaeth leol sy'n tyfu dros y degawd a hanner nesaf.

Mae gennym hefyd gynlluniau helaeth ar gyfer datblygu a gwella cysylltiadau trafnidiaeth lleol, megis cyfleusterau parcio a theithio ar gyfer Porthcawl a gorsaf reilffordd arfaethedig Bracla, cyfleusterau parcio a theithio estynedig / newydd yn Heol Ewenni, Maesteg a Phencoed, a phont ffordd newydd newydd dros y rheilffordd ym Mhencoed.

Gyda dolen basio newydd a gwasanaethau rheilffordd hanner awr i Faesteg a gwelliannau newydd i goridorau bysiau, mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ddarparu estyniad newydd gwerth £5m yng ngorsaf reilffordd y Pîl a datblygu cyfleuster parcio a theithio newydd.

Gallai unrhyw un sy'n chwilio am enghraifft arall o uchelgais y cyngor hwn hefyd edrych tuag at ein Cynllun Meistr yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr – strategaeth adfywio sydd â'r potensial ar gyfer newid y ffordd rydym yn defnyddio ardal canol y dref am byth.

Drwy brosiectau fel y rhain y mae'r cyngor hwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith newydd ar gyfer y fwrdeistref sirol.

Rydym wedi ymrwymo i fanteisio i'r eithaf ar ddatblygiadau ledled y rhanbarth yn y dyfodol, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, i sicrhau'r manteision mwyaf posibl, ac i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Rwyf yn edrych ymlaen at weld sut y mae'r uchelgeisiau hyn yn datblygu ymhellach yn y flwyddyn i ddod, a gwn fod pob aelod hefyd.

Yn fy rôl fel Arweinydd, rwy’n dibynnu ar gefnogaeth ddiwyro fy Nghyd-Aelodau yn y Cabinet.

Hoffwn gydnabod eu hymroddiad a'u hymrwymiad parhaus, a chadarnhau hefyd y bydd rhai newidiadau i strwythur y Cabinet ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Cynghorydd Richard Young yn camu o’r neilltu fel yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, a bydd y Cynghorydd Stuart Baldwin yn ymgymryd â'r rôl.

Y Cynghorydd Young yw'r unig aelod presennol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a fu hefyd yn gwasanaethu ar hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol. Mae dros 30 mlynedd o gynrychioli ei dref a'r fwrdeistref sirol yn gyflawniad eithriadol ac yn gofnod o ymroddiad yn ôl safon unrhyw un.
Mae ei angerdd a'i gred mewn chwyldro ynni gwyrdd yn hollol glir i unrhyw un sy'n gwrando ac mae ei arweinyddiaeth a'i gefnogaeth i'r agenda honno wedi arwain, yn ddi-os, at gynnydd mewn rhwydweithiau gwres ardal a chartrefi di-garbon, etifeddiaeth y gall fod yn falch iawn ohoni.

Yn ogystal â bod yn wleidydd profiadol, mae Richard yn gyn-filwr a wasanaethodd ein cenedl yn y Llynges Frenhinol am dros 8 mlynedd ac mae bob amser wedi ymrwymo i anrhydeddu ein cyfamod fel Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog, felly rwyf wedi gofyn iddo barhau yn y rôl honno.

Mae profiad, doethineb a phen cŵl y Cynghorydd Young yn ased amhrisiadwy, ac rwyf wedi gallu dibynnu arno fel cydweithiwr uchel ei barch, ac fel ffrind.

Mae'r Cynghorydd Baldwin wedi dangos egni ac ymrwymiad eithriadol, a gwn ei fod yn mwynhau her y rôl bwysig hon.
Ynghyd â'm cyd-Weinidogion yn y Cabinet, hoffwn estyn croeso cynnes iddo.

Rydym hefyd am ddiolch yn ddiffuant i'r Cynghorydd Young am y cyfraniad gwerthfawr y mae wedi'i wneud.

Nid wyf yn bwriadu gwneud newidiadau pellach i bortffolios presennol y Cabinet, ond hoffwn gloi fy adroddiad drwy fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r cynghorwyr Patel, Smith, Burnett a Williams am eu cefnogaeth barhaus a gwerthfawr. Mae'n cael ei werthfawrogi, fel pob tro.

Diolch."

532a. Yr Arweinydd i benodi Aelodau'r Cabinet

PENDERFYNWYD: Bod yr Arweinydd wedi penodi'n swyddogol yr Aelodau canlynol i'r Cabinet:

Y Cynghorydd HM Williams
Y Cynghorydd D Patel
Y Cynghorydd N Burnett
Y Cynghorydd CE Smith
Y Cynghorydd S Baldwin

532b. Caiff yr Arweinydd gyhoeddi Dirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o blith yr Aelodau hynny a benodwyd i'r Cabinet, a chaiff gyhoeddi penodiad Aelodau'r Cabinet i bortffolios

PENDERFYNWYD: Cyhoeddodd yr Arweinydd mai'r Cynghorydd HM Williams fydd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Adnoddau ar gyfer 2021/2022.

Ychwanegodd mai'r Aelodau Cabinet canlynol fyddai'n gyfrifol am y portffolios isod:-

Cynghorydd D Patel – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol
Cynghorydd N Burnett – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar
Cynghorydd CE Smith – Addysg ac Adfywio
Y Cynghorydd S Baldwin – Cymunedau

533. RHAGLEN ARFAETHEDIG O GYFARFODYDD Y CYNGOR A PHWYLLGORAU'R CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i ddiben oedd cynnig rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig Mai 2021 – Ebrill 2022 i'w chymeradwyo, ac i nodi'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig Mai 2022 – Ebrill 2023.

Nodir y rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor ar gyfer Mai 2021 – Ebrill 2022 ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad. Cadarnhaodd y byddai'r Aelodau'n nodi mai dim ond cyfarfodydd pwyllgor rheoleiddio sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill 2022 yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro, er mwyn cynorthwyo gyda chynllunio yn y dyfodol, fod rhaglen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Fwrdeistrefol 2022/23 wedi'i hatodi

yn Atodiad 2 i'r adroddiad i'w nodi. Gall y rhaglen hon fod yn destun rhai diwygiadau pellach, cyn iddi gael ei chymeradwyo erbyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor y flwyddyn nesaf, yn dilyn Etholiadau'r Fwrdeistref Sirol.

Gofynnwyd i'r Cyngor hefyd nodi dyddiadau cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet, a Chyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo a gynhwyswyd yn Atodiad 1, er mwyn bod yn gyflawn.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i symud ymlaen o'r pandemig ar gyfer cynnal cyfarfodydd Pwyllgor Hybrid, yn ogystal â chyfarfodydd o bell o hyn ymlaen, pan fydd rheoliadau a chanllawiau'n caniatáu wrth i’r pandemig leddfu.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad, y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn yr eitem nesaf ar yr agenda ac eraill yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, a fydd yn caniatáu nid yn unig weithio o bell ond cyfarfodydd Hybrid hefyd. Cyn bo hir, byddai'r Cyngor yn ystyried darparu offer yn Ystafell y Cyngor, a fydd yn caniatáu i hyn ddigwydd.

Roedd disgwyl i waith pellach mewn perthynas â hyn gael ei wneud yn yr haf a gobeithio y byddai cyfarfodydd o'r fath yn cael eu darparu ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref. Felly, roedd yn waith sy'n mynd rhagddo.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor wedi:

a. Cymeradwyo’r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021/22 a nodir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad hwn;

b. Cymeradwyo’r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

c. Nodi’r rhaglen ddrafft dros dro o gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau’r Cyngor ar gyfer 2022/23 a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad;

d. Nodi dyddiadau'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a Chyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo sydd hefyd wedi'u nodi yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad, at ddibenion gwybodaeth.

534. PENODIADAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR A CHYRFF ERAILL Y CYNGOR A DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i ddiben oedd:

- ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i benodi Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac unrhyw Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Paneli, a chyrff eraill y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn briodol, i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor llawn nac yn swyddogaethau gweithredol;
- cymeradwyo diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.

Dywedodd fod Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor, dan deitl Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor, yn nodi holl Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Paneli a chyrff eraill y Cyngor sydd ar waith ar hyn o bryd. Yn yr adroddiad roedd rhai Pwyllgorau penodol a lywodraethir gan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, o ran eu cyfansoddiad a/neu eu penodiad o Gadeiryddion. Roedd hyn yn cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn benodol. Roedd newidiadau a gynigiwyd i'r corff penodol hwn hefyd yn gofyn am ddiweddariadau i Gyfansoddiad y Cyngor, o ganlyniad i ofynion

penodol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Pholisi Osgoi Trethi'r Cyngor.

Amlinellodd yr adroddiad ymhellach y broses y dylid ei dilyn mewn perthynas â phenodi Aelodau i Bwyllgorau'r Cyngor, ond yn fwy penodol, i benodi Cadeiryddion a lle y bo'n gymwys, Is-gadeiryddion, yn unol â'r darpariaethau a'r meini prawf gosodedig a amlinellir yn yr adroddiad.

Enghraifft o hyn fyddai penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ôl y cyfarfod blynyddol. Ni allai'r penodiadau hyn fod yn Aelodau o grŵp gwleidyddol mwyaf y Cyngor, chwaith.

Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar sut y dylid penodi Cadeiryddion i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, yn seiliedig ar y fformiwla a ddefnyddir o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Cynigwyd fod cylch gwaith a swyddogaethau presennol Pwyllgorau a chyrff eraill y Cyngor heb eu newid, fel y nodir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor, a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Mae cydbwysedd gwleidyddol yn hanfodol er mwyn pennu dyraniad seddi ar Bwyllgorau. Dangoswyd cydbwysedd gwleidyddol presennol Pwyllgorau a chyrff eraill yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Roedd hyn hefyd yn cyfrif am Aelod Annibynnol newydd yn cael ei ethol yn ward Nant-y-moel lle bu swydd wag ac i'r Cynghorydd K Watts ymuno â'r grŵp Annibynnol/Alliance, wedi iddo fod yn Aelod Annibynnol o'r blaen.

Dangosir strwythur presennol y pwyllgorau yn Atodiad 3 i'r adroddiad, tra bod aelodaeth bresennol pwyllgorau a fydd yn sail i unrhyw newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau, yn Atodiad 4.

Amlinellodd paragraff 4.12 o'r adroddiad rai newidiadau gofynnol eraill yr oedd angen eu gwneud i'r Cyfansoddiad. Cynigiwyd felly y dylid diwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny mewn perthynas â Dadleuon a Phleidleisio Bwrdeistref Sirol fel yr amlinellir yn Atodiad 5 i'r adroddiad, drwy newidiadau wedi'u tracio.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi:

(1) Penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac unrhyw Bwyllgorau eraill y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn briodol i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol;

(2) Pennu maint a chylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;

(3) Pennu'r neilltuad o seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) Pennu pa grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor sydd â hawl i wneud pa benodiadau o Gadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;

(5) Derbyn enwebiadau a chynghorwyr penodedig i wasanaethu ar bob un o'r Pwyllgorau, y Paneli a chyrff eraill (fel y nodwyd), fel y dangosir fel Atodiad i'r cofnodion hyn:-

- Panel Apeliadau

- Pwyllgor Penodiadau
- Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:
- Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Is-bwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

(6) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau, y Paneli a chyrff eraill canlynol (fel y nodwyd), a nodwyd y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf:

- Panel Apeliadau - Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd - Cadeirydd
- Pwyllgor Rheoli Datblygu - Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 - Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - Cadeirydd ac Is-gadeirydd

(7) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol yn unol â darpariaethau paragraff 4.3 o'r adroddiad:

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3

(8) Cymeradwywyd y diwygiadau i'r Cyfansoddiad fel y'u nodir ym mharagraff 4.2.3 ac Atodiad 5 i'r adroddiad.

- Panel Apeliadau

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer penodi Cadeirydd i'r Panel Apeliadau am y flwyddyn ddilynol, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd PA Davies
Y Cynghorydd R Penhale-Thomas

Cynhaliwyd pleidlais felly, a’r canlyniad fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd PA Davies | Y Cynghorydd R Penhale-Thomas |
|---|---|
| 26 pleidlais | 24 pleidlais |

**O ganlyniad, penodwyd y Cynghorydd PA Davies yn Gadeirydd y Panel Apeliadau**

Is-gadeirydd – Y Cynghorydd J McCarthy (heb wrthwynebiad)

- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd - Cadeirydd E Venables (heb ei ail)

- Pwyllgor Rheoli Datblygu

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y flwyddyn ddilynol, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd S Dendy

Cynhaliwyd pleidlais felly, a'r canlyniad fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd S Dendy |
|---|---|
| 29 pleidlais | 21 pleidlais |

**O ganlyniad, penodwyd y Cynghorydd G Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer penodi Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y flwyddyn ddilynol, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd RM Granville
Y Cynghorydd S Dendy

Cynhaliwyd pleidlais felly, a'r canlyniad fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd RM Granville | Y Cynghorydd S Dendy |
|---|---|
| 27 pleidlais | 23 pleidlais |

**O ganlyniad, penodwyd y Cynghorydd RM Granville yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

- Y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 – Cadeirydd - Y Cynghorydd D Lewis (heb wrthwynebiad)
  Is-gadeirydd – Y Cynghorydd PA Davies (heb wrthwynebiad)
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - Cadeirydd
  – Y Cynghorydd HJ David (heb wrthwynebiad)
  Is-gadeirydd – Y Cynghorydd CE Smith (heb wrthwynebiad)

(8) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol yn unol â darpariaethau paragraff 4.3 o'r adroddiad:

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 – Y Cynghorydd K Rowlands (heb wrthwynebiad)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 – Y Cynghorydd Amanda Williams (heb wrthwynebiad)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 – Y Cynghorydd JP Blundell (heb wrthwynebiad)

535. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL A PHWYLLGORAU ERAILL

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelodau i Banel Heddlu a Throseddu De Cymru, Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru fel y nodir yn yr adroddiad yn Atodiad 1, ar gyfer y flwyddyn ddilynol h.y. hyd at fis Mai 2022.

Yn dilyn enwebiadau diwrthwynebiad ar gyfer y penodiadau uchod,

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cynghorydd JP Blundell yn cael ei benodi i Gyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Caerdydd a bod y Cynghorydd Tim Thomas yn cael ei benodi'n Aelod Wrth Gefn.

(2) Bod y Cynghorydd RE Young yn cael ei benodi i Banel Heddlu a Throseddu De Cymru.

(3) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael ei benodi i Gynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru.

536. ARWISGO MAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AR GYFER 2021/22

Yn sgil cymeradwyaeth y Cyngor i enwebiad y Cynghorydd JC Spanswick fel Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2021/2022, gwahoddwyd y Cynghorydd Spanswick i dderbyn swydd y Maer yn ffurfiol gan y Maer sy’n ymadael. Derbyniodd y Cynghorydd Spanswick swydd y Maer ar lafar, ac adroddodd y llw canlynol :–

"Rwyf i, John Charles Spanswick, yn tyngu y byddaf yn ffyddlon ac yn dwyn gwir deyrngarwch i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail."

Estynnodd y Cynghorydd KJ Watts ei longyfarchiadau i’r Maer newydd.

537. ARWISGO CONSORT Y MAER

Yn sgil enwebiad Susan Spanswick i fod yn gonsort y Maer ar gyfer y flwyddyn 2020/21, fe’i gwahoddwyd i dderbyn swydd y consort yn ffurfiol gan y Maer sy’n ymadael.

Derbyniodd Mrs. Spanswick swydd Consort y Maer ar lafar, fel a ganlyn:-

"Mae'n bleser mawr gennyf dderbyn swydd Consort y Maer."

Estynnodd y Cynghorydd KJ Watts ei longyfarchiadau i’r Consort newydd.

538. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y MAER NEWYDD

Rhoddodd y Maer newydd ar gyfer 2021-22, y Cynghorydd Spanswick, y cyhoeddiad canlynol.

'Yn gyntaf, Mr. Maer, hoffwn groesawu'r holl Gynghorwyr, gwesteion a theulu a all fod yn bresennol yma gyda ni heddiw, diolch i'r ffyrdd newydd o weithio gyda chyfarfodydd rhithwir.

Mae cael fy ethol i swydd Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2021 – 2022 yn anrhydedd ac yn rhywbeth yr wyf yn ddiolchgar amdano. Dros y blynyddoedd nid yw wedi bod yn rhywbeth yr oeddwn wir yn disgwyl iddo ddigwydd neu anelu ato, ond mae'n debyg ar ôl dechrau ar fy nhrydedd blwyddyn ar hugain fel Cynghorydd Bwrdeistref Sirol a bron i 30 mlynedd fel Cynghorydd Cymuned, yr oedd yn amser i mi ymgymryd â'r rôl.

Serch hynny, ni fyddaf yn ymgymryd â'r rôl hon ar fy mhen fy hun ac rwy’n falch o'ch hysbysu mai fy nghonsort am y flwyddyn fydd fy ngwraig, Susan Spanswick, a fydd, yr wyf yn siŵr, yn fy nghadw i mewn golwg ac yn rhoi gwybod i mi os byddaf yn camu allan

o linell. Mae Susan wedi fy nghefnogi dros yr holl flynyddoedd gyda fy ngwaith yn y gymuned; tra wyf wedi bod allan yn mynychu cyfarfodydd, ac ati, mae hi wedi bod yn gweithio'n rhan-amser fel gweithiwr Gofal Cartref ac yn bwrw ymlaen â bywyd teuluol gan fagu ein 3 phlentyn ac, yn fwy diweddar, yn helpu gyda'n 4 o wyrion (ac un arall yn fuan ym mis Gorffennaf), ond am flwyddyn yn unig bydd Susan yn camu ymlaen gyda mi i helpu i gynrychioli Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gan fynd yn ôl at yr hyn y mae'r anrhydedd hwn yn ei olygu i mi, meddyliais y byddai'n briodol rhoi ychydig o fewnwelediad i chi o ble rwy'n hanu. Ddim yn bell, a dweud y gwir. Cefais fy magu yn Nant-y-moel yn nyffryn hyfryd Ogwr, ac er nad ydw i'n byw yno mwyach, rwy'n dal i fwynhau gyrru i fyny drwy'r cwm tuag at fynydd Bwlch. Wrth dyfu i fyny, efallai na wnes i sylwi ar bobl gyhoeddus a chynghorwyr y dydd, ond dw i'n cofio un yn arbennig o flynyddoedd fy arddegau ar ddiwedd y 1970au, sef y Cynghorydd Muriel Williams o Gyngor Bwrdeistref Ogwr, yn fwy cyfarwydd fel Muw o'r Rhiw gan fod swyddfeydd y Cyngor ar y pryd wedi'u lleoli ar draws yr afon o'r fan lle maen nhw heddiw, ochr yn ochr â chanolfan siopa'r Rhiw. Daeth Muriel yn Faer Cyngor Bwrdeistref Ogwr ac rwy'n hynod falch o fod yn Faer y Fwrdeistref Sirol hon gyda threftadaeth Nant-y-moel.
Yn ystod y 1980au, bûm yn ffodus i fod yn Brentis Gofalwr Tir gyda Chyngor Bwrdeistref Ogwr ym Mharc Griffin ym Mhorthcawl a bu'n rhaid i mi deithio bob dydd o Nant-y-meol ar fy moped 50cc. Doedd hyn ddim yn brofiad gwych ar ddiwrnod gwlyb a gwyntog. Y blynyddoedd hynny yn yr 1980au cynnar a fagodd ddiddordeb yndda i mewn gwleidyddiaeth a'r gymuned leol, ac mae'r gweddill, fel y maen nhw'n ei ddweud, yn hanes. Byddaf yn ddiolchgar am byth i Gyngor Bwrdeistref Ogwr am fy nghefnogi ar fy llwybr gyrfa mewn parciau a mannau gwyrdd a wnaeth fy arwain i at dreulio 39 mlynedd mewn llywodraeth leol a chael, o'r diwedd, y swydd Rheolwr Parciau a Chefn Gwlad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn 2016.

O ran mannau gwyrdd a'n hamgylchedd awyr agored, mae hwn yn faes y bwriadaf ei hyrwyddo dros y flwyddyn i ddod ac, yn benodol, y gwaith o blannu a chynnal a chadw coed, ynghyd â diogelu ein mannau gwyrdd. Pa etifeddiaeth well y gallwn ei gadael i'n plant na phlannu cymaint o goed â phosibl (o'r rhywogaethau cywir ac yn y lleoliad cywir) a diogelu mannau gwyrdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae rhywfaint o waith cychwynnol eisoes wedi dechrau o ran plannu coed, gyda phrosiect yn cael ei arwain gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr i blannu 60,000 o goed erbyn 2025. Rwyf eisoes wedi mynychu gweithgor sy'n cynnwys swyddogion o'r awdurdod hwn, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, V2C, yr Awdurdod Tân, Groundwork ac eraill i ystyried cydweithio ar hyn a byddwn yn cyfarfod eto ddechrau mis Mehefin. Er ei fod yn ofyn mawr, rwy'n gobeithio y gellir cynyddu'r targed o 60,000 o goed i tua 145,000 a fyddai'n cyfateb yn fras i un goeden ar gyfer pob aelod o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol.

Ni allai amseriad hyn fod yn well gan fod cynllun Canopi Gwyrdd y Frenhines wedi'i lansio'r wythnos hon i annog pobl i blannu coed o ddechrau'r tymor plannu ym mis Hydref 2021 hyd at ddiwedd 2022, i nodi ei 70 mlynedd ar yr orsedd. Bydd pobl ledled y DU yn cael eu gwahodd i blannu 'coed brodorol iach' y flwyddyn nesaf ar gyfer Jiwbilî Blatinwm y Frenhines. Mae'r Tywysog Siarl wedi disgrifio'r broses o blannu coeden fel "datganiad o obaith a ffydd yn y dyfodol". Mae hyd yn oed wedi'i alw'n '*tree-bilee*'. Bydd mwy o newyddion yn y dyfodol am hynny ac erbyn diwedd fy mlwyddyn yn y swydd efallai y byddwch wedi blino braidd arnaf yn mynd ymlaen am goed a mannau gwyrdd.

Rwyf am geisio cyflawni a hyrwyddo rôl a swydd y Maer hyd eithaf fy ngallu drwy gefnogi digwyddiadau cymunedol lle bynnag a phryd bynnag y bo modd, heb unwaith anghofio'r angen i bob un ohonom aros yn ddiogel wrth i ni ddod allan o'r pandemig. Rwy'n mawr obeithio dychwelyd i Nant-y-moel yn ystod fy mlwyddyn sydd i ddod yn y swydd a helpu i hyrwyddo Cwm Ogwr ynghyd â'r holl ardaloedd gwych eraill sydd gennym ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn awr, gadewch i mi sôn am yr elusennau a ddewiswyd gennyf am y flwyddyn ac, fel y gwyddom i gyd, mae wedi bod yn gyfnod anodd i godi arian, ond rwy'n gobeithio y byddwch yn gallu fy nghefnogi gyda'r dasg hon. Dydw i ddim yn siŵr faint ohonoch fydd wedi clywed am Lads & Dads, ond grŵp cymorth lleol yw hwn a sefydlwyd ym Mracla ym mis Hydref 2019 i helpu dynion, hen ac ifanc, gyda'u lles meddyliol yn sgil pryderon am y nifer cynyddol o ddynion ifanc sy'n diweddu eu bywydau eu hunain. Ei *strapline* yw '*Talking, Walking, Thinking, Supporting'*. Fe wnes i helpu'r syflaenwr (Rob Lester) i sefydlu'r ychydig gyfarfodydd cyntaf yng Nghanolfan Gymunedol Bracla i roi cyfle i bobl ddod i sgwrsio mewn lleoliad cyfrinachol. Erbyn hyn mae gan y grŵp dros 400 o aelodau o'r ardal leol a thu hwnt, ac mae gwaith gwych yn cael ei wneud gyda mwy a mwy o ddynion yn siarad yn gyfrinachol am faterion sy'n peri pryder iddynt. Er mai fi yw Ysgrifennydd y grŵp ar hyn o bryd, byddaf yn camu o'r neilltu o hyn yn yr wythnosau i ddod i roi cyfle i rywun fynd â'r grŵp ymlaen gyda'r ymddiriedolwyr eraill. Yr elusen leol arall y byddaf yn ei chefnogi yw Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr sy'n ymgymryd â rôl hanfodol wrth gefnogi gofalwyr di-dâl ledled y Fwrdeistref Sirol ac maent wedi wynebu llawer o heriau yn ystod y pandemig ac yn dal i wneud hynny wrth i ni geisio dychwelyd i'r normal newydd, beth bynnag fo hyn.

Yn olaf, hoffwn ddymuno'n dda i'r Maer sy'n ymadael, y Cynghorydd KJ Watts, a'i gonsort, y Cynghorydd J Williams. Rwy'n sylweddoli efallai nad yw wedi bod fel y byddech wedi disgwyl, gyda digwyddiadau cyfyngedig, a chyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir, ond bu'n fraint cael bod yn ddirprwy i chi a gweithio gyda chi dros yr wyth mis diwethaf.

Yn olaf, rwy'n gobeithio mai dim ond mater o amser ydyw cyn inni ddychwelyd at ryw fath o normalrwydd gyda chyfarfodydd yn Siambr y Cyngor, ac yn hynny o beth rwy'n siŵr y byddwch i gyd yn barod i brofi fy amynedd fel Cadeirydd y cyfarfod. Ond cadwch olwg, efallai fod taith arw o'n blaenau.

539. <u>ARWISGO DIRPRWY FAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AR GYFER 2021/22</u>

Cadarnhaodd y Maer sy'n ymadael, y Cynghorydd KJ Watts, fod y Cyngor yn gynharach wedi cymeradwyo enwebiad y Cynghorydd M Jones fel Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2020-21. Felly gwahoddodd y Cynghorydd Jones i dderbyn y cynnig hwn o swydd.

Derbyniodd y Cynghorydd Jones y cynnig i fod yn Ddirprwy Faer yn unol â hynny a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gefnogi'r Maer newydd, y Cynghorydd Spanswick, ynghyd â'i Gonsort, ac i gefnogi dinasyddion y Fwrdeistref Sirol yn y rôl fawreddog hon. Roedd yn fraint ac yn anrhydedd gwneud hynny, ychwanegodd, fel y bu'r gwaith o gefnogi ei etholwyr yn Ward Betws. Ychwanegodd y Cynghorydd Jones ymhellach ei fod yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod gyda brwdfrydedd ac uchelgais.

540. <u>ARWISGO CONSORT Y DIRPRWY FAER</u>

Nid oedd gan y Dirprwy Faer, fel y cyhoeddwyd yn gynharach yn y trafodion, Gonsort ar gyfer y flwyddyn i ddod.